

2015 Rhif 1538 (Cy. 181)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Ffordd Gyswllt Tua'r Gogledd,
Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd)
(Clirffordd, Gwahardd Troi i'r
Chwith a Throi i'r Dde a Gwahardd
Cerddwyr) 2015**

Gwnaed *13 Gorffennaf 2015*

Yn dod i rym *15 Gorffennaf 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) (“y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 2(3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984⁽¹⁾ (“Deddf 1984”) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Gorffennaf 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Gyswllt Tua'r Gogledd, Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd) (Clirffordd, Gwahardd Troi i'r Chwith a Throi i'r Dde a Gwahardd Cerddwyr) 2015.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyttffordd” (“*carriageway*”) yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd y bwriedir i gerbydau traffig dramwyo arni; ac

ystyr “llain ymyl” (“*verge*”) yw unrhyw ran o'r gefnffordd nad yw'n gerbyttffordd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd neu feic pedal droi i'r chwith ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd neu feic pedal droi i'r dde ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 8, ni chaiff neb, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd stopio neu aros ar y darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

6. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 9, ni chaiff neb, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, gerdded ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

7. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 10, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd stopio neu aros ar unrhyw lain ymyl sy'n union gyfagos i unrhyw ran o'r gerbyttffordd a gynhwysir yn y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

Esemptiadau

8. Ni fydd dim yn erthygl 5 yn gymwys:

a. i atal cerbyd rhag aros ar unrhyw gerbyttffordd am gymaint o amser ag sy'n angenrheidiol i alluogi'r cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r canlynol:

- i. unrhyw waith adeiladu neu ddymchwel;
- ii. symud unrhyw rwystr i draffig;
- iii. cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r gefnffordd neu osod, codi, cynnal a chadw, newid neu drwsio ar y ffordd fynediad neu wrth ei hymyl unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003(2).

b. i gerbyd a ddefnyddir at ddibenion yr heddlu, y frigâd dân neu'r gwasanaeth ambiwlans;

c. i gerbyd a ddefnyddir yng ngwasanaeth awdurdod lleol yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol; a

- d. i gerbyd sy'n stopio neu'n aros:
- i. pan fydd yn ofynnol i'r person sy'n ei reoli stopio yn ôl y gyfraith;
- ii. pan fydd rhaid i'r person hwnnw stopio er mwyn osgoi damwain, neu
- iii. pan fydd y person hwnnw yn cael ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

9. Ni fydd dim yn erthygl 6 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gerddwr fynd ar y darn o'r gefnffordd:

(a) pan fo hynny'n angenrheidiol i osgoi neu atal damwain neu i gael neu roi cymorth o ganlyniad i ddamwain neu argyfwng a bod y cerddwr yn gwneud hynny yn y fath fodd fel yr achosir cyn lleied o berygl ac anghyfleustra â phosibl i draffig arall ar y gefnffordd;

(b) pan fo'r cerddwr yn gwneud hynny drwy arfer ei ddyletswyddau neu ei dyletswyddau fel cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil neu fel aelod o'r gwasanaethau brys;

(c) pan fo hynny'n angenrheidiol i adfer neu symud gwrthrych sydd wedi syrthio ar y gefnffordd;

(d) pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn gwneud y canlynol yn effeithlon;

(i) cynnal a chadw, trwsio, glanhau, clirio, addasu neu wella unrhyw ran o'r gefnffordd;

(ii) symud ymaith unrhyw gerbyd oddi ar unrhyw ran o'r gefnffordd; neu

(iii) codi, gosod, rhoi, cynnal a chadw, profi, addasu, trwsio neu symud ymaith unrhyw strwythur, gwaith neu gyfarpar sydd mewn, ar, oddi tan neu dros unrhyw ran o'r gefnffordd neu sy'n ffinio â hi;

(e) pan fo hynny'n angenrheidiol mewn cysylltiad ag unrhyw arolygiad, arolwg, archwiliad neu gyfrifiad sy'n ymwneud â'r gefnffordd neu unrhyw ran ohoni ac sy'n cael ei wneud yn unol ag unrhyw awdurdod cyffredinol neu arbennig a roddir gan Weinidogion Cymru.

10. Ni fydd dim yn erthygl 7 yn gymwys:

- a. i atal cerbyd rhag aros ar unrhyw gerbyttffordd am gymaint o amser ag sy'n angenrheidiol i alluogi'r cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r canlynol:
 - i. unrhyw waith adeiladu neu ddymchwel;
 - ii. symud unrhyw rwystr i draffig;
 - iii. cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r gefnffordd neu osod, codi, cynnal a chadw, newid neu drwsio ar y ffordd fynediad neu wrth ei hymyl unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003(2).
- b. i gerbyd a ddefnyddir at ddibenion yr heddlu, y frigâd dân neu'r gwasanaeth ambiwlans;
- c. i gerbyd a ddefnyddir yng ngwasanaeth awdurdod lleol yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol; a
- d. i gerbyd sy'n stopio neu'n aros:
 - i. pan fydd yn ofynnol i'r person sy'n ei reoli stopio yn ôl y gyfraith;
 - ii. pan fydd rhaid i'r person hwnnw stopio er mwyn osgoi damwain, neu
 - iii. pan fydd y person hwnnw yn cael ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 13 Gorffennaf 2015
R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 1(1) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

GWAHARDD TROI I'R CHWITH

Ymadael â ffordd gyswllt neilltuedig tua'r gogledd yr A470 a mynd ar gerbyttfordd tua'r de yr A470.

ATODLEN 2

GWAHARDD TROI I'R DDE

Ymadael â system gylchu'r A470 a mynd ar ffordd gyswllt neilltuedig tua'r gogledd yr A470.

ATODLEN 3

CLIRFFORDD A GWAHARDD CERDDWYR

Y darn o ffordd gyswllt neilltuedig tua'r gogledd yr A470 o'i chyffordd â system gylchu'r A470 hyd at ei chyffordd â cherbyttfordd tua'r de yr A470.